

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2023 Rhif (Cy.)

TAI, CYMRU

**Rheoliadau Dyrannu Tai a
Digartrefedd (Cymhwysra)
(Cymru) (Diwygio) 2023**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/2603 (Cy. 257)) ("Rheoliadau 2014") sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer pa bersonau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai ac i gael cymorth tai.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2014 sy'n ymwneud â chymhwysra personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael dyraniad o lety tai o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996"). Mae'n rhagnodi dosbarth ychwanegol o bersonau ("Dosbarth M") sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai o dan Ddeddf 1996.

Mae Dosbarth M yn gymwys i bersonau sy'n ddiodefwyr y fasnach mewn pobl neu gaethwasiaeth ac y rhoddyd iddynt ganiatâd dros dro i aros yn y Deyrnas Unedig yn unol â'r Rheolau Mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971 (p. 77).

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 5(1) o Reoliadau 2014 sy'n ymwneud â chymhwysra personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael cymorth tai o dan adran 66, 68, 73 neu 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'n rhagnodi dosbarth ychwanegol o bersonau ("Dosbarth N") sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath. Mae'r dosbarth hwn yn cyfateb i Ddosbarth M a fewnosodir gan reoliad 3.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2023 Rhif (Cy.)

TAI, CYMRU

**Rheoliadau Dyrannu Tai a
Digartrefedd (Cymhwysra)
(Cymru) (Diwygio) 2023**

Gwnaed

Yn dod i rym

30 Ionawr 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 160A(3)(1) o Ddeddf Tai 1996(2) ac adran 61 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(3) a pharagraff 1(2) o Atodlen 2 iddi.

Yn unol ag adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(4).

-
- (1) Mewnosodwyd adran 160A gan adran 14(2) o Ddeddf Digartrefedd 2002 (p. 7); diwygiwyd is-adran 3 gan adran 146(2)(d) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 160A(3) o Ddeddf Tai 1996 (p. 52), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a'r cofnod mewn perthynas â Deddf Tai 1996 yn Atodlen 1 i O.S. 1999/672 fel y'i darllenir yn unol ag adran 17(1) o Ddeddf Digartrefedd 2002. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
- (2) 1996 p. 52.
- (3) 2014 dccc 7. *Gweler* adran 99 am y diffiniad o "rhagnodedig".
- (4) Mae'r cyfeiriad yn adran 142(3) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. *Gweler* hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) (Diwygio) 2023 a deuant i rym ar 30 Ionawr 2023.

Diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014

2. Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014(1) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

Diwygiadau i reoliad 3

3. Yn rheoliad 3 (personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai)—

- (a) hepgorer yr “ac” yn union ar ôl paragraff (k),
- (b) ar ddiwedd paragraff (l), yn lle “.” rhodder “; ac”, ac
- (c) ar ôl paragraff (l) mewnosoder—

“(m) Dosbarth M – person sydd â chaniatâd dros dro i aros yn y Deyrnas Unedig a roddwyd yn unol ag Atodiad i'r Rheolau Mewnfudo: Caniatâd Dros Dro i Aros i Ddioddefwyr y Fasnach mewn Pobl neu Gaethwasiaeth(2).”

Diwygiadau i reoliad 5

4. Yn rheoliad 5(1) (personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael cymorth tai)—

- (a) hepgorer yr “ac” yn union ar ôl is-baragraff (l);
- (b) ar ddiwedd is-baragraff (m), yn lle “.” rhodder “; ac”, ac
- (c) ar ôl is-baragraff (m) mewnosoder—

“(n) Dosbarth N – person sydd â chaniatâd dros dro i aros yn y Deyrnas Unedig a roddwyd yn unol ag Atodiad i'r Rheolau Mewnfudo: Caniatâd Dros

(Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

- (1) O.S. 2014/2603 (Cy. 257) (fel y'i harbedwyd ac y'i haddaswyd gan erthygl 5 o O.S. 2015/1272 (Cy. 88) (C. 73), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/698 (Cy. 164), O.S. 2019/1041 (Cy. 183), O.S. 2019/1149 (Cy. 199), rheoliad 76 o O.S. 2020/1309, rheoliad 26 o O.S. 2020/1372, O.S. 2021/353 (Cy. 105), O.S. 2021/1147 (Cy. 282) ac O.S. 2022/485 (Cy. 121).
- (2) Gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 23 Mai 1994 (HC 395), fel y'i diwygiwyd. Cyflwynwyd Atodiad Caniatâd Dros Dro i Aros i Ddioddefwyr y Fasnach mewn Pobl neu Gaethwasiaeth gan y Datganiad o Newidiadau i'r Rheolau Mewnfudo: HC 719, a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 18 Hydref 2022 ac sy'n cael effaith ar 30 Ionawr 2023.

Dro i Aros i Ddiodefwyr y Fasnach
mewn Pobl neu Gaethwasiaeth.”

Enw

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion

Cymru

Dyddiad